**Cofnodion Wedi'i Gadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023 yn 3.7, CQ2 ac yn electronig dros Microsoft Teams Wedi'i ffrydio'n fyw dros y Rhyngrwyd**

WEDI'I GADARNHAU

| **Yn Bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd Cyhoeddus |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Gweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Sarah Brewer | (SB) | Rheolwr Ymgysylltu â Staff (ar gyfer eitem 3.1 yn unig) |
| Des Brown | (DB) | Cyd-gadeirydd, REACH (ar gyfer eitem 3.1 yn unig) |
| Graham Brown | (GB) | Cyd-gadeirydd, Enfys |

| | | |
|---|---|---|
| | | (ar gyfer eitem 3.1 yn unig) |
| Paul Daulton | (PD) | Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol |
| Andrew Jones | (AJ) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Hannah Lindsay | (HL) | Cyd-gadeirydd, REACH<br>(ar gyfer eitem 3.1 yn unig) |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Leah Morantz | (LM) | Pennaeth Cyfathrebu |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd y Staff |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Zoe Wallace | (ZW) | Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol |
| Karl Whitcombe | (KW) | Cyd-gadeirydd, Enfys<br>(ar gyfer eitem 3.1 yn unig) |
| | | |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol), Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Kate Eden | (KE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Dirprwy Gadeirydd |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |

*Dechreuodd y cyfarfod am 11am*

| PHW 2023.09.28/1 | Croeso ac Ymddiheuriadau |
|---|---|

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai a oedd yn arsylwi'r trafodion ar-lein. Nododd mai'r Bwrdd yw Corff Llywodraethol y sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol am: osod cyfeiriad strategol; adeiladu a chynnal partneriaethau strategol; penderfynu ar dderbynioldeb risgiau strategol a goruchwylio risgiau strategol; craffu ar yr hyn a gyflawnir yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau; cynnal gwaith llywodraethu da a gosod naws a diwylliant sefydliadol.

O ran naws a diwylliant, roedd y Bwrdd yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu; diwylliant lle, os nad oedd rhywbeth yn mynd yn unol â'r bwriad, roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymddiheuro, yn mynd ati i wneud yn iawn am y sefyllfa ac yn gwneud gwelliannau ar gyfer y dyfodol. Roedd y Bwrdd eisiau i bawb ddod i'r gwaith a bod ar eu gorau, a hynny fel nhw eu hunain, heb ofni gwahaniaethu nac anfantais o unrhyw fath, gan gynnwys unrhyw fath o ymddygiad ffobig. Roedd

WEDI'I GADARNHAU

gan y Bwrdd ymagwedd 'dim goddefgarwch' i'r perwyl hwn, ac anogodd JW unrhyw un a oedd yn wynebu gwahaniaethu o'r fath i ddefnyddio'r prosesau sydd ar gael i fynd i'r afael â hynny. Gofynnodd hefyd i unrhyw un a oedd yn gweld/clywed am unrhyw achos o wahaniaethu o'r fath i adrodd amdano, gan na ddylai neb ddioddef unrhyw anghyfiawnder. Cyfeiriodd JW at y ffaith y cyhoeddwyd *Fframwaith GIG Cymru i Leisio Pryder yn Ddiogel* yn ddiweddar, a chadarnhaodd y byddai hyn yn rhan o drefniadau parhaus.

Cynhaliodd y Bwrdd ei fusnes yn unol â threfniadau ffurfiol y Bwrdd; roedd hyn yn ymwneud â darllen yr holl bapurau cyn y cyfarfod, gan wneud y gorau o'r amser a oedd ar gael ar gyfer trafodaethau ar y diwrnod. Roedd y Bwrdd hefyd yn arddel Gwerthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Gweithio Gyda'n Gilydd, Gydag Ymddiriedaeth a Pharch, i Wneud Gwahaniaeth.

Crynhodd JW yr Agenda ac, ar ran y Bwrdd, estynnodd groeso i Claire Birchall a Jim McManus i'r sefydliad ac i'w cyfarfod cyntaf.

Nododd y Bwrdd ymddiheuriadau gan: Kate Eden, Meng Khaw, a Diane Crone

| **PHW 2023.09.28/2** | **Datgan Buddiannau** |
|---|---|

Gofynnodd JW am Ddatganiadau o Fuddiannau heblaw'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant. Nid oedd unrhyw ddatganiad arall.

| **PHW 2023.09.28/3** | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** |
|---|---|
| **PHW 2023.09.28/3.1** | **Rhwydweithiau Staff** |
| **PHW 2023.09.28/3.1.1** | **Rhwydwaith Enfys** |

Nododd JW fod rhaglen ymgysylltu'r Bwrdd wedi ailddechrau gyda'r Rhwydweithiau Staff, ac estynnodd groeso cynnes i gyd-gadeiryddion Rhwydweithiau Enfys a REACH (Hil, Cydraddoldeb a Threftadaeth Ddiwylliannol). Roedd hyn yn cynrychioli dechrau ail rownd o waith ymgysylltu, ac roedd holl aelodau'r Bwrdd yn edrych ymlaen at glywed mwy am y Rhwydweithiau a'r hyn yr oeddent yn ei ofyn gan y Bwrdd.

Yna fe wnaeth JW wahodd Karl Whitcombe a Graham Brown, cyd-gadeiryddion Rhwydwaith Enfys, i wneud eu cyflwyniad.

Gan ddefnyddio cyfres o sleidiau, soniodd y cyd-gadeiryddion am rôl Enfys o ran darparu man cefnogol, cynhwysol a chyfrinachol i holl staff LHDTC+ gyfarfod a rhannu a thrafod safbwyntiau, profiadau neu bryderon. Ar hyn o bryd, roedd gan Rwydwaith Enfys 76 o aelodau, ac roedd yn gweithredu fel cyfaill beirniadol i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Aethant ymlaen i grynhoi'r ystod o weithgareddau a

WEDI'I GADARNHAU

digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod 2022/23 a'r rhai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2023/24.

Roedd gan Rwydwaith Enfys bedwar peth yr hoffai ofyn i'r Bwrdd ei wneud:

- Ystyried sesiynau mentora o chwith ar gyfer y tîm gweithredol;
- Sicrhau bod swyddogion gweithredol yn bresennol mewn cynadleddau, digwyddiadau a seminarau;
- Cymryd rhan mewn sesiynau mewnol i godi ymwybyddiaeth, gan ddangos cefnogaeth i'r Rhwydwaith ar lefel y swyddogion gweithredol;
- Cadarnhau'r arweinydd ar gyfer Enfys o blith y swyddogion Gweithredol, yn dilyn ymddeoliad diweddar Rhiannon Beaumont Wood.

Diolchodd JW i KW a GB am eu cyflwyniad cynhwysfawr, a llongyfarchodd y Rhwydwaith ar ei waith effeithiol yn cefnogi staff i fod ar eu gorau, a hynny fel nhw eu hunain.

Yna gofynnodd a oedd unrhyw sylwadau neu gwestiynau:

- Roedd KY yn croesawu'r cyflwyniad, a mynegodd ddiddordeb mewn mentora o chwith i gefnogi dysgu ar lefel unigol ac ar lefel y Bwrdd yn sgil profiadau bywyd staff. Awgrymodd fod cyfle i gysylltu gwaith Enfys â'r Llysgenhadon Ifanc, yn enwedig yn ymwneud ag archwilio hunaniaeth.

- O ran yr angen am noddwr newydd o blith y swyddogion gweithredol, dywedodd TC ei bod wedi aros i CB a JM ymuno â'r sefydliad, er mwyn trafod hynny gyda nhw; JM fyddai'r swyddog gweithredol newydd a fyddai'n gweithredu fel noddwr, ac roedd yn edrych ymlaen at ddysgu mwy am Enfys a chwrdd â'r aelodau.

- Mynegodd NL ei ddiolch i KW a GB am waith rhagorol Enfys ac ymrwymiad y Rhwydwaith i gydweithio ar draws y sefydliad i gefnogi'r staff; roedd hyn yn galonogol iawn.

**PHW 2023.09.28/3.1.2** **Rhwydwaith REACH (Hil, Cydraddoldeb a Threftadaeth Ddiwylliannol)**

Yna estynnodd JW groeso i Hannah Lindsay a Des Brown, cyd-gadeiryddion Rhwydwaith REACH gan eu gwahodd i roi diweddariad i'r Bwrdd am rôl REACH, sut yr oedd y Rhwydwaith wedi cefnogi amrywiaeth ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r hyn yr oedd y Rhwydwaith yn ei ofyn gan y Bwrdd er mwyn datblygu ymhellach yn ystod 2023/24.

WEDI'I GADARNHAU

Gan ddefnyddio cyflwyniad sleidiau, nododd HL a DB y twf mewn aelodaeth, o 33 ym mis Ebrill 2023 i 52 o aelodau erbyn hyn; drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau, roedd y Rhwydwaith wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â'r staff. Roedd yr hyn y gofynnwyd amdano o raglen ymgysylltu'r Bwrdd yn 2021/22 yn dal yn berthnasol, gyda rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ac roedd y Rhwydwaith yn edrych ymlaen at gyflymu'r cynnydd hwn. Parhawyd i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu set newydd o safonau i hybu cydraddoldeb hil ar draws GIG Cymru, drwy Grŵp Gweithredu'r Prif Swyddog Nyrsio.

Mynegodd HL a DB eu diolch i HG am ei gefnogaeth barhaus fel y noddwr gweithredol; roedd yn parhau i ddarparu nawdd cefnogol a diogel i drafod a mynd i'r afael â materion a oedd weithiau'n anodd ac yn heriol.

O ran yr hyn y gofynnwyd amdano gan y Bwrdd, cynigiodd y cyd-gadeiryddion:

- Cynnwys cynrychiolaeth o Rwydwaith REACH ar baneli recriwtio, yn canolbwyntio i ddechrau ar Fandiau 8a ac uwch, gyda phecynnau o adnoddau wedi'u datblygu i'w dosbarthu i bob ymgeisydd;
- Ystyried interniaethau â thâl ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig;
- Rhaglen well o hyfforddiant ymwybyddiaeth hil i staff, gan anelu at nodi a herio ymddygiad ac iaith annerbyniol;
- Rhaglen ddatblygu ar gyfer staff o leiafrifoedd ethnig, gyda'r nod o gynyddu cyfleoedd drwy raddfeydd staff ac i swyddi arweinyddol.

Yna estynnodd JW wahoddiad HG fel noddwr ar lefel y swyddogion gweithredol i wneud sylwadau. Pwysleisiodd HG ei werthfawrogiad o'r cyfle i weithio gydag aelodau REACH; roedd ef yn bersonol wedi elwa'n fawr o'i berthynas â'r Rhwydwaith. Diolchodd HG i HL a DB, a soniodd sut yr oedd y Rhwydwaith yn un enghraifft o ymrwymiad y sefydliad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Yn olaf, cydnabu'r gwaith ychwanegol y mae angen ei wneud i gyflawni'n llawn ddyheadau'r sefydliad o ran cynhwysiant.

Diolchodd JW i HL a DB am eu cyflwyniad diddorol a'u gwaith ar gynyddu'r aelodaeth; diolchodd hefyd i HG am ei nawdd ymroddedig a'i asesiad adeiladol o'r gwaith sydd i ddod. Soniodd hefyd am y camau sydd wedi eu cymryd yn dilyn y rhaglen hyfforddi ddiweddar ar gymhwysedd diwylliannol, yn dilyn adborth gan yr hyfforddwr.

Croesawodd MM y cyflwyniad gan nodi ei fod yn ddiddorol ac yn gwneud i rywun feddwl. Myfyriodd ar unrhyw gefnogaeth neu gyfraniad y gallai ef ei wneud fel cyfarwyddwr anweithredol y Bwrdd, a gofynnodd gwestiwn am ymgysylltiad cyfarwyddwyr anweithredol â'r Rhwydweithiau.

WEDI'I GADARNHAU

**Camau Gweithredu: PV**

Diolchodd IB i HL a DB am eu cyflwyniad a'u hasesiad o'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni 'gofynion' 2021/22; mynegodd hefyd farn bersonol ar yr adborth penodol a gafwyd yn dilyn y rhaglen hyfforddi ddiweddar a'r angen i ddysgu o hyn mewn gwaith parhaus ynghylch diwylliant sefydliadol. Yn olaf, soniodd IB am waith sydd ar y gweill ledled Cymru ynghylch nodweddion gwarchodedig; byddai'n ceisio defnyddio'r data a amlygwyd gan REACH i lywio'r gwaith hwnnw.
**Camau Gweithredu: IB**

Diolchodd TC i HL a DB am eu cyflwyniad, gan ddweud ei fod yn gwneud i rywun feddwl. Ychwanegodd rai myfyrdodau yr oedd ganddi yn dilyn yr adborth mewn digwyddiad hyfforddi, ac ymrwymodd i ddatblygu amgylchedd lle roedd pobl yn teimlo ei bod yn ddiogel i herio ymddygiad amhriodol, a'u bod yn gallu gwneud hynny yn y fan a'r lle. O ran y 'gofynion', awgrymodd TC, yn ogystal â nawdd HG, y gallai cyfranogiad a chefnogaeth ehangach ar lefel swyddogion gweithredol ar gyfer Rhwydwaith REACH fod yn ddefnyddiol.

I gloi'r drafodaeth, mynegodd JW ei diolch i gyd-gadeiryddion Rhwydweithiau Enfys a REACH am eu harweinyddiaeth a'u hymrwymiad i ddatblygu'r Rhwydweithiau fel rhan annatod o'r gwaith ymgysylltu â staff ar draws y sefydliad. Cadarnhaodd y byddai'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yn cael sicrwydd o glywed y cynnydd a wnaed ar yr hyn y gofynnir i'r Bwrdd ei wneud.

Fe wnaeth y Bwrdd:
- **nodi'r** diweddariadau a ddarparwyd gan Rwydweithiau Enfys a REACH a **chefnogi'r** hyn y gofynnir amdano gan y Bwrdd ar gyfer gweithredu ar lefel weithredol;
- **diolch** i gyd-gadeiryddion y Rhwydwaith am eu harweinyddiaeth a'u hymrwymiad i ddatblygu eu rhaglenni gwaith;
- **cyfeirio** at y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl y gorchwyl o sicrhau cynnydd parhau mewn perthynas â chyflawni'r 'gofynion'.

| **PHW 2023.09.28/3.2** | **Adroddiad y Prif Weithredwr** |
|---|---|

Wrth gyflwyno Adroddiad y Prif Weithredwr, soniodd TC am:
- Y cyfranogiad parhaus yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19 wrth i'r Ymchwiliad bellach symud i Fodiwl 2; byddai Modiwl 2b yn canolbwyntio ar y penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru, a disgwylir i hyn ddechrau ym mis Chwefror 2024. Cadarnhaodd fod tîm Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n paratoi ymateb cynhwysfawr i'r Ymchwiliad yn barod ar gyfer

WEDI'I GADARNHAU

Modiwl 2b, gyda chymorth yn cael ei gynnig i staff a oedd yn ei chael hi’n anodd ailymweld â chyfnod mor anodd a thrawmatig. Diolchodd TC i'r tîm sy'n arwain ar broses yr Ymchwiliad, a hefyd i Dr Quentin Sandifer am ei arbenigedd a'i fewnbwn wrth ddarparu tystiolaeth fel rhan o Fodiwl 1 yr Ymchwiliad. Cadarnhaodd PV fod yr adnoddau sydd eu hangen i ymateb i Fodiwl 2b yn sylweddol, ond bod staff yn eu lle i alluogi ymatebion prydlon a manwl.

- Adnewyddu’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Sefydliad Iechyd y Byd a Llywodraeth Cymru. Roedd Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, sy’n gweithredu o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi helpu i alluogi adnewyddu’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Ranbarthol Ewrop ar gyfer Sefydliad Iechyd y Byd – Memorandwm a lofnodwyd yn wreiddiol yn 2020. Nododd TC natur unigryw y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a oedd yn cryfhau trefniadau cydweithio rhwng Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd.

- Yr ymateb cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru i Gynllun Strategol 2023/26, gyda chadarnhad bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymeradwyo’r Cynllun ym mis Medi. Byddai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ysgrifennu ar wahân ynglŷn â’r amodau sy'n sail i'r gymeradwyaeth.

- Y gwaith a arweiniwyd gan IB i adolygu cyffredinrwydd clefydau yng Nghymru. Dechreuodd y gwaith hwn gydag adolygiad o ddiabetes yng Nghymru, ac mae wedi parhau i fagu momentwm ers hynny; roedd cyflwyniad i Fwrdd Arwain y GIG ynghyd â gwaith i ymgysylltu'n llawn â phartneriaid mewn awdurdodau lleol wedi’i fwriadu i gyflymu’r momentwm o ran lleihau diabetes math 2 drwy hybu ffyrdd iachach o fyw. Nododd IB y berthynas rhwng diabetes a chlefydau cardiofasgwlaidd, a dywedodd y byddai canolbwyntio ar ddiabetes hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar reoli clefydau eraill. Roedd yn ystyried cynnwys y gwaith diabetes yn Fframwaith Perfformiad y GIG.

  Nododd JW fod IB wedi cyflwyno’r gwaith i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ac yn dilyn hynny cynhelir sesiwn ar y cyd â’r Bwrdd yng ngwanwyn 2024 gyda’r nod o ystyried sut y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru gynorthwyo agenda’r bwrdd iechyd.

- Newidiadau i'r tîm gweithredol: estynnodd TC groeso i CB, fel Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro ar gyfer Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol

WEDI'I GADARNHAU

Perthynol i Iechyd; a JM, fel Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant. Diolchodd TC hefyd i IB am arwain y gyfarwyddiaeth am sawl mis.

Estynnodd SG ei llongyfarchiadau ar adnewyddu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth; roedd hi hefyd yn falch o nodi'r cynnydd a wnaed o ran y gwaith ar glefydau anhrosglwyddadwy ledled Cymru.

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr a **chafodd sicrwydd** o'r Adroddiad a'r trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd.

| **PHW 2023.09.28/3.3** | **Y Trosolwg Diweddaraf o Iechyd Cyhoeddus** |
|---|---|

Gan gyfeirio at y Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym o Iechyd Cyhoeddus, tynnodd IB sylw at y materion a ganlyn:

- Y sefyllfa o ran derbyniadau ysbyty a brechiadau COVID-19;
- Lansio'r ymgyrch flynyddol y gaeaf ar gyfer brechu rhag y ffliw;
- Y sefyllfa o ran y cleifion hynny ar lwybrau gofal a oedd yn aros i ddechrau eu triniaeth. Byddai'r cynnydd llai nag y gobeithiwyd amdano yn ystod misoedd yr haf yn effeithio ar y sefyllfa yn ystod cyfnod heriol y gaeaf;
- Y sefyllfa gyson o ran lefelau marwolaethau gormodol a ffactorau risg, gan gynnwys ysmygu ac yfed alcohol;
- O ran l ymddygiad iach a llesiant, nododd IB y cynnydd parhaus mewn lefelau gordewdra, a oedd yn dangos mai prin ychydig iawn o newid a fu mewn arferion bwyta; mae dangosyddion eraill fel unigrwydd a gorbyder bellach yn cymharu â'r lefelau cyn y pandemig;
- O ran y penderfynyddion iechyd ehangach, gwnaed peth cynnydd gydag arwyddion bod chwyddiant yn arafu, ond mae tystiolaeth o anghydraddoldebau cynyddol. Mae'n debyg bod costau byw yn cyrraedd lefel sefydlog, ond argymhellodd IB bod angen bod yn ofalus, o ystyried y waelodlin uchel.

Diolchodd JW i IB am y crynodeb, a gofynnodd a oedd unrhyw sylwadau neu gwestiynau:

Nododd SG fod Arolwg Iechyd Cyhoeddus mis Awst wedi cynnwys yr effeithiau yn sgil costau byw; roedd 42% o bobl wedi mynegi pryderon sylweddol am eu sefyllfa ariannol wrth i gyfnod y gaeaf agosáu.

Nododd SG hefyd fod data ar ysmygu yn cyfeirio at dybaco yn unig, ac nid fepio; gofynnodd a oedd unrhyw waith ar y gweill i ddadansoddi ymddygiad a thueddiadau o ran fepio. Dywedodd IB fod y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion wedi rhoi rhywfaint o wybodaeth ynghylch ymddygiad plant; roedd hefyd

WEDI'I GADARNHAU

WEDI'I GADARNHAU

yn bwriadu archwilio ffynonellau data eraill ynghylch fepio i'w cynnwys yn y Dangosfwrdd.

Gofynnodd MM a fyddai'n well cymharu'r data ar gyfer y sefyllfa nawr gyda'r data a oedd ar gael cyn y pandemig yn hytrach na chymharu â chyfnod y pandemig. Nododd IB yr anawsterau gyda chymariaethau o'r fath, o ystyried nifer y digwyddiadau mawr a ddigwyddodd tua'r un cyfnod; roedd y rhain yn cynnwys y pandemig, gadael yr Undeb Economaidd, a'r rhyfel yn Wcráin. Cytunodd i ystyried defnyddio gwaelodlin sy'n gysylltiedig â chostau byw.
**Camau Gweithredu: IB**

Soniodd NE am y sefyllfa o ran marwolaethau ar dudalen 21 o'r Adroddiad. Gofynnodd a oedd dileu data COVID-19 wedi arwain at sefyllfa nad oedd yn gynrychioliadol. Cytunodd IB i adolygu'r data er mwyn sicrhau eglurder. Soniodd TC am y sefyllfa amlwg o ran anghydraddoldebau a marwolaethau, a gofynnodd a ellid gwneud mwy. Byddai IB yn ystyried y pwynt hwn ymhellach.
**Camau Gweithredu: IB**

Bu'r Bwrdd yn **trafod** ac yn **craffu** ar Adroddiad y Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym, a **chafodd sicrwydd** o'r adborth a'r sylwadau.

| **PHW 2023.09.28/3.4** | **Adroddiad Integredig ar Berfformiad (Mis 5) ac Adroddiad Cyllid** |
|---|---|

Wrth gyflwyno'r eitem hon, er mwyn hwyluso llif y drafodaeth, dywedodd JW y byddai eitem 3.6 ar yr agenda yn dilyn eitem 3.4.

Nododd HG y byddai fformat yr adroddiad yn parhau i ddatblygu ac esblygu dros amser; cyfeiriodd at yr angen i adlewyrchu cyfrifoldebau ac atebolrwydd y Bwrdd er mwyn rhoi sicrwydd wrth gyflawni targedau yn ystod y flwyddyn yn ogystal â Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd fformat yr adroddiad yn cefnogi'r ddau ddiben hyn, a hefyd yn cyd-fynd â strwythurau'r Pwyllgorau. Gan gymryd bod yr Adroddiad wedi'i ddarllen, gwahoddodd HG gydweithwyr ar lefel swyddogion gweithredol i nodi pwyntiau allweddol.

<u>Y Bwrdd a Llywodraethu Corfforaethol</u>

Dywedodd PV fod gwaith yn parhau o ran llunio Fframwaith Sicrwydd hygyrch ac ymarferol ar gyfer y bwrdd. Roedd hyn yn cynnwys mapio dogfennau, a byddai'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn mis Tachwedd.

WEDI'I GADARNHAU

Cyllid

Soniodd HG am y sefyllfa heriol o ran adnoddau ar draws GIG Cymru, a'r angen i bob sefydliad lunio cynlluniau yn ystod y flwyddyn i leihau gwariant. Roedd aelodau'r Bwrdd wedi cymryd rhan mewn trafodaethau yn ystod mis Awst a chyflwynwyd papur i Lywodraeth Cymru wedi hynny; ni chafwyd ymateb iddo hyd yma. Pwysleisiodd HG yr angen hollbwysig i gyflawni yn unol â gwariant a gynlluniwyd fesul mis.

O ran cyllid cyfalaf, nododd HG y pwysau ar gyfalaf yn ôl disgresiwn, gan amlinellu diben cyllid o'r fath. Aeth HG ymlaen i nodi nifer yr achosion busnes a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru; pe bai unrhyw un o'r rhain yn methu â chael cymeradwyaeth, oherwydd y sefyllfa ariannol gyffredinol, cododd HG y posibilrwydd o adolygu gwariant arfaethedig ac ail-flaenoriaethu yn unol â hynny.

Croesawodd MM y ffaith bod Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023/26 wedi'i gymeradwy; roedd hyn wedi cynnwys ymrwymiad i ddatblygu prosiectau a gwasanaethau, gan gynnwys gwariant cyfalaf, a gofynnodd am unrhyw effaith ar y rhain. Dywedodd HG y byddai sefyllfa ariannol GIG Cymru yn ffactor allweddol wrth bennu argaeledd adnoddau.

Y Gweithlu

Cyfeiriodd NL at *bapur briffio Archwilio Cymru ynglŷn â data ynghylch Gweithlu'r GIG* a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023, a nododd sefyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru o gymharu â sefyllfa Cymru gyfan ar gyfer nifer o faterion allweddol:

- Mae cyfraddau salwch ac absenoldeb yn 4.5%, o gymharu â sefyllfa Cymru gyfan o 6.6%. Roedd hyn wedi arwain at golli 1.4 miliwn o ddiwrnodau i GIG Cymru, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfrif am 34,000 diwrnod o'r golled honno;

- Sefyllfa gweithlu ehangach GIG Cymru, gyda 7,000 o swyddi gwag ar draws GIG Cymru; roedd 2,500 o'r rhain yn swyddi nyrsio. Roedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru 230 o swyddi gwag yn yr un cyfnod, 30 o'r rhain ar gyfer swyddi nyrsio;

- Arwyddion bod mwy o staff yn gadael y GIG nawr nag ar unrhyw adeg arall yn ystod y pum mlynedd diwethaf; roedd cyfradd trosiant Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 10%;

- Gorddibyniaeth ar staff Asiantaeth yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol sylweddol ar GIG Cymru; roedd cyfanswm y costau ar gyfer staff Asiantaeth yn £325 miliwn yn 2022/23, tra bod costau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer yr un cyfnod tua £4 miliwn. Cadarnhaodd NL fod cynlluniau ar waith i sicrhau gostyngiad o £1 filiwn yn y ffigur hwn yn ystod 2023/24;

- Roedd nifer staff Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi codi o 1,741 yn 2018/19 i 2,307 yn 2022/23. Roedd tua 230 o swyddi gwag ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae gwaith ar y gweill ar lefel genedlaethol mewn perthynas â'r ffigurau o ran nifer y swyddi gwag ar draws y GIG yng Nghymru, a hynny yn sgil heriau o ran adrodd o fewn ESR. Mae'r cyfraddau trosiant wedi aros yn gymharol gyson dros y pedair blynedd diwethaf, rhwng 10% - 13%.

Yn olaf, nododd NL fod cydymffurfiaeth â chyrsiau hyfforddiant statudol a gorfodol yn 92%.

Gofynnodd IB i'r data ynghylch ymddeoliadau gael eu cynnwys i roi gwell darlun o'r sefyllfa gyffredinol, a chadarnhaodd NL fod y data hyn wedi'u casglu a'u defnyddio i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio'r gweithlu.

Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio

Tynnodd AJ sylw at:

- Y dull o ddiogelu iechyd sy'n adnabod pob perygl, gyda'r cylch gwaith yn ymestyn y tu hwnt i glefydau trosglwyddadwy yn unig. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd 'pob perygl' bob wythnos gyda gwledydd eraill y DU;

- Gostyngiad bach yn wythnos 37 yng nghyfraddau COVID-19 ac mewn cyfraddau heintiau cyffredinol; arhosodd cyfraddau derbyniadau i'r ysbyty yn sefydlog. Amrywiad Omicron oedd y mwyaf cyffredin o hyd yng Nghymru, yn gyfrifol am draean o'r holl achosion. Roedd dyfodiad amrywiadau newydd yn cael ei fonitro'n fanwl, i asesu cyfraddau trosglwyddedd. Roedd yr ymgyrch frechu wedi dechrau ganol mis Medi yn unol â'r bwriad, gyda chefnogaeth i'r ymgyrch yn y cyfryngau. Dylid gwneud ymdrechion i annog pawb a oedd yn gymwys i gael y brechiadau ar gyfer covid a'r ffliw i fanteisio arnynt;

- Arhosodd cyfraddau mathau eraill o salwch anadlol yn sefydlog, gyda gostyngiad bach yn y feirws syncytiol anadlol mewn plant;

WEDI'I GADARNHAU

- Roedd y gwaith o baratoi ar gyfer y gaeaf yn parhau, gyda nodiadau atgoffa i GIG Cymru ynglŷn â'r egwyddorion a'r gofynion o ran Atal a Rheoli Heintiau;

- Brigiad diweddar o Salmonela yng ngogledd Cymru; roedd hyn wedi arwain at roi'r Cynllun Rheoli Heintiau ar waith, ac roedd camau gweithredu perthnasol i reoli lledaeniad y salwch wedi golygu bod y digwyddiad wedi dod i ben;

O ran brechiadau, gofynnodd SG am ganllawiau ynglŷn â chymhwystra gofalwyr i gael y brechiadau. Dywedodd AJ fod hyn yn glir ac y byddai'n gwirio Canllawiau'r Llyfr Gwyrdd i sicrhau nad oedd hyn yn agored i ddehongliadau gwahanol.
**Camau Gweithredu: AJ**

<u>Ansawdd a Diogelwch</u>
Dywedodd CB:

- Bu cynnydd yn niferoedd y digwyddiadau Datix yr adroddwyd amdanynt; roedd hyfforddiant diweddar wedi atgyfnerthu'r neges ei bod yn hollbwysig adrodd, gan ddylanwadu o bosibl ar y cynnydd yn nifer yr adroddiadau sy'n cael eu gwneud. Roedd CB wrthi'n asesu hyn, a byddai'n adrodd yn ôl yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.
  **Camau Gweithredu: CB**

- Roedd gwaith ar y gweill i gasglu a disgrifio risgiau allanol;

- Gwelwyd gostyngiad mewn perfformiad o ran ymatebion 30-diwrnod, o bosibl yn sgil y tymhorau ac yn gysylltiedig â chyfnodau brig o ran y gwyliau. Roedd CB yn cysylltu â Datix Cymru i gael cadarnhad am rai o'r trefniadau adrodd;

- Cafwyd dwy gŵyn ffurfiol a dwy gŵyn anffurfiol. Roedd gofyniad penodol o ran cyfieithu wedi arwain at amser ymateb ychydig yn hirach mewn perthynas ag un gŵyn.

Nododd MM fod nifer o ddigwyddiadau yn parhau heb eu datrys ar ôl 30 diwrnod, gydag un digwyddiad yn dal heb ei ddatrys ar ôl blwyddyn. Rhoddodd CB sicrwydd i'r Bwrdd bod y tîm yn rheoli'r holl ddigwyddiadau; byddai'n adrodd yn ôl yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd ar gynlluniau i wella'r cyfraddau ar gyfer cau digwyddiadau.
**Camau Gweithredu: CB**

WEDI'I GADARNHAU

WEDI'I GADARNHAU

Strategaeth a Chyflawni

Cadarnhaodd HG fod gwaith monitro gweithredol parhaus yn cael ei wneud yn erbyn cerrig milltir; roedd y cynnydd yn nifer y ceisiadau i ymestyn amserlenni cerrig milltir yn amodol ar asesiad trwyadl, a dim ond ar ôl cyfiawnhad clir y cytunwyd i hynny.

Diolchodd JW i bawb am y diweddariadau; nododd y byddai'r Bwrdd, yn ôl yr arfer ym mis Tachwedd, yn cynnal sesiwn graffu fanwl ar gyflawniad y cynllun yn ystod y flwyddyn, a hynny ar gyfnod hanner blwyddyn y cynllun.

**Ystyriodd** y Bwrdd sefyllfa ariannol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 31 Awst 2023, **cafodd sicrwydd** o'r trafodaethau a'r camau gweithredu, a **nododd** y dadansoddiad manwl a gynlluniwyd ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

| **PHW 2023.09.28/3.5** | **Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau** |
|---|---|

Soniodd cadeiryddion y Pwyllgorau am y materion a ganlyn:

<u>Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd</u>

Tynnodd SG sylw at y gwaith sydd ar y gweill gyda phartneriaid academaidd, a nododd IB y bwriad i gyhoeddi'r Strategaeth Data a Digidol ym mis Hydref.

<u>Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Clinigol</u>

Soniodd NE am yr angen i ail-gydbwyso rhaglen waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol, fel y gellid lledaenu'r gwaith yn fwy cyfartal drwy gydol y flwyddyn, yn hytrach na llwyth gwaith trwm tuag at y misoedd olaf.

**Nododd** y Bwrdd yr adroddiad a **chafodd sicrwydd** o hyn a'r diweddariadau a ddarparwyd yn y cyfarfod.

| **PHW 2023.09.28/3.6** | **Cynllun Seilwaith** |
|---|---|

Wrth gyflwyno'r Cynllun Seilwaith (y Cynllun), nododd HG y bwriad i nodi mewn un ddogfen y dull strategol o ddatblygu seilwaith ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru; roedd hyn yn cynnwys nodi a blaenoriaethu datblygiadau digidol ac ystadau allweddol.

Dywedodd HG fod y Cynllun yn crynhoi'r datblygiadau seilwaith presennol a'r datblygiadau arfaethedig yn Rhaglen Gyfalaf 2023/24; tynnodd sylw at y sefyllfa anarferol yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru ynddi, gan nad yw ond yn berchen ar un o'i gyfleusterau a chan ei fod yn meddu ar statws tenant/lesddeiliad ym mhob cyfleuster arall.

Croesawodd MM yr Adroddiad cynhwysfawr; o ystyried sefyllfa ariannol gyffredinol GIG Cymru, gofynnodd am ragor o fanylion am y broses flaenoriaethu ac unrhyw gynigion i resymoli ystadau. Wrth ymateb, nododd HG ostyngiad dros amser yn erbyn y dyraniad yn ôl disgresiwn, er gwaethaf cynnydd sylweddol ym maint y sefydliad a'r dyraniad refeniw. Amlinellodd y broses flaenoriaethu os byddai rhagor o gyfyngiadau.

Roedd NE yn croesawu'r ffaith y cynhwyswyd yr holl faterion o ran ystadau a chyfalaf mewn un adroddiad. Awgrymodd leoliad mwy amlwg ar gyfer y seilwaith digidol, y cwmwl a TG. Awgrymodd SG hefyd y dylid cryfhau'r agenda datgarboneiddio. Cytunodd HG i wneud y diwygiadau hyn.
**Camau Gweithredu: HG**

Soniodd TC am drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2023 ynglŷn â sganio'r gorwel ar gyfer technolegau newydd, wrth i systemau TG cyfredol ddyddio a bod angen eu hadnewyddu. Diolchodd JW i HG a'i dîm am gasglu'r holl faterion yn ymwneud â seilwaith o fewn un Cynllun; roedd hwn yn cynnwys yr holl fanylion a nodwyd eisoes yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, ac roedd yn darparu un pwynt cyfeirio defnyddiol.

**Nododd** y Bwrdd yr adroddiad a **chafodd sicrwydd** o'r trafodaethau.

| | |
|---|---|
| **PHW 2023.09.28/4** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| **PHW 2023.09.28/4.1** | **Diweddaru'r Strategaeth Iechyd Ryngwladol** |

Wrth gyflwyno'r eitem hon, nododd SA fod hon yn strategaeth alluogi gyda'r bwriad o helpu i gyflawni'r Strategaeth Hirdymor; roedd hefyd yn adlewyrchu'r newid yn y sefyllfa fyd-eang a'r cysylltiad rhwng Cymru a gwledydd eraill y DU. Tynnodd sylw yn benodol at yr Atodiadau, gan fod y rhain yn cynnwys y dystiolaeth fanwl ynghyd ag astudiaethau achos.

Roedd sesiwn ddatblygu'r Bwrdd wedi helpu i fframio'r strategaeth derfynol a diolchodd SA i SG am ei syniadau, a oedd yn tynnu ar ei harbenigedd yn y maes iechyd byd-eang. Yn olaf, nododd SA y bwriad i fesur yr effaith a gâi'r strategaeth drwy broses werthuso ffurfiol.

Croesawodd SG y Strategaeth fel un sy'n dangos rôl arweiniol Cymru yn yr agenda bwysig hon.

Mynegodd MM ei falchder o fod yn rhan o sefydliad oedd â chyd-destun rhyngwladol mor eang; gofynnodd am y posibilrwydd o gynnwys dangosydd yn

WEDI'I GADARNHAU

| | |
|---|---|
| adroddiad mewnwelediad a pherfformiad y Bwrdd a fyddai'n adlewyrchu'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r strategaeth.<br>**Camau Gweithredu: HG/SA**<br><br>Diolchodd TC i bawb a fu'n ymwneud â'r gwaith o ddatblygu strategaeth ysbrydoledig.<br><br>**Cymeradwyodd** y Bwrdd y Diweddariad i'r Strategaeth Iechyd Rhyngwladol. | |
| **PHW 2023.09.28/4.2** | **Trefniadau Llywodraethu'r Bwrdd** |
| **PHW 2023.09.28/4.2.1** | **Cofnodion a Chofnod o Gamau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2023** |
| Cadarnhaodd y Bwrdd y Cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.<br><br>Rhoddodd PV ddiweddariad ynghylch y Cofnod o Gamau Gweithredu; roedd dau gam gweithredu yn parhau ar agor ac ar y trywydd iawn i'w cwblhau o fewn yr amserlenni.<br><br>**Cymeradwyodd** y Bwrdd y Cofnodion a **nododd** y sefyllfa o ran y Cofnod o Gamau Gweithredu. | |
| **PHW2023.09.28/4.2.2** | **Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin** |
| Fe wnaeth y Bwrdd:<br>• **Nodi** na ddefnyddiwyd darpariaeth Camau Gweithredu'r Cadeirydd;<br>• **Nodi** y defnyddiwyd y Sêl Gyffredin dair gwaith i adrodd i'r Bwrdd ynghylch:<br>    • Trwydded i osod Arwyddion y tu allan i Kimberley House, Tŷ Glas Avenue, Llanisien.<br>    • Adnewyddu'r brydles ar gyfer Uned 1 Llys Fairway.<br>    • Adnewyddu'r brydles ar gyfer Uned 22a/b Canolfan Fusnes Taf<br>• **Cael sicrwydd** ynghylch y modd y defnyddiwyd y Sêl Cyffredin yn unol ag adran 8 o'r Rheolau Sefydlog | |
| **PHW 2023.09.28/4.2.3** | **Adolygiad Blynyddol o'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog** |
| Nododd PV yr adolygiad blynyddol o'r Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Clinigol. Tynnodd sylw at y newidiadau yn y Rheolau Sefydlog a oedd yn ymwneud â'r canlynol: cyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd; sefydlu Llais; a'r cynnydd yn nifer y cyfarwyddwyr gweithredol. | |

WEDI'I GADARNHAU

Gofynnodd PV hefyd am gymeradwyaeth i newid y derminoleg a ddefnyddir o 'aelodau nad ydynt yn swyddogion' i 'gyfarwyddwyr anweithredol'. Yn olaf, nododd fod Atodlen 1 bellach yn gosod trothwyon o £500k.

Fe wnaeth y Bwrdd:

- **Ystyried** y diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a'r Materion a Gadwyd yn ôl a'r Pwerau a Ddirprwywyd;
- **Mabwysiadu'r** Rheolau Sefydlog diwygiedig a'r Materion a Gadwyd yn ôl a'r Pwerau a Ddirprwywyd, a **chytuno** i newid y geiriad i gyfleu 'cyfarwyddwyr anweithredol';
- **Mabwysiadu'r** fersiwn ddiweddaraf o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol.

| | |
|---|---|
| **PHW 2023.09.28/5** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **PHW 2023.09.28/5.1** | **Adroddiad Preifat y Cadeirydd (27 Gorffennaf 2023)** |

Eglurodd JW y diben o wneud yr adroddiad hwn yn gyhoeddus, yn unol â *Phrotocol y Bwrdd ar gyfer Cadw Materion i Gyfarfod Bwrdd (a Phwyllgor) Preifat*, a ddiweddarwyd ym mis Gorffennaf 2023.

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad Preifat y Cadeirydd.

| | |
|---|---|
| **PHW 2023.09.28/5.2** | **Blaengynllun y Bwrdd** |

**Nododd** y Bwrdd y tabl yn cynnwys y Blaengynllun.

| | |
|---|---|
| **PHW 2023.09.28/6** | **Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd** |

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 30 Tachwedd 2023

Daeth y cyfarfod i ben am 13.25

WEDI'I GADARNHAU